**Teitl y Swydd:** Swyddog Cefnogi Prosiect Rhwydwaith Economi Gylchol Casnewydd

**Atebol i:** Rheolwr Prosiect Rhwydwaith Economi Gylchol Casnewydd, Rheolwr Prosiect Maindee Unlimited

**Lleoliad:** Maendy / gweithio o gartref (gweithio hybrid)

**Cyflog Blynyddol:** **Pro rata** £27,300

**Tymor:** 3 diwrnod / 21 awr yr wythnos, yn codi i 4 diwrnod / 28 awr yn ail flwyddyn y prosiect. Cytundeb 3 blynedd.

**Proses Ymgeisio:** Er mwyn asesu eich cais, hoffem ddeall sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn berthnasol i'r swydd hon.

A fyddech cystal â darllen y disgrifiad swydd a manyleb y person yn fanwl, ac mewn llythyr cyflwyno, grynhoi sut mae eich profiad yn berthnasol i'r hyn rydyn ni'n gofyn amdano. Gofynnwn i chi gadw eich ymateb o fewn uchafswm o ddwy ochr o A4 mewn ffont 11pt. Mae anfon llai na dwy ochr yn iawn. Defnyddiwch bwyntiau bwled ble bo'n bosib.

*Gwyddom ei bod hi'n annhebygol y bydd gan neb 100% o'r sgiliau a'r profiad rydyn ni'n chwilio amdanynt – cofiwch mai dyma eich cyfle i arddangos eich cryfderau, eich hyblygrwydd a'ch brwdfrydedd.*

Anfonwch eich CV a'r llythyr cyflwyno at admin@maindee.org erbyn 5pm ar 26 Ionawr 2024. Cynhelir cyfweliadau ym mis Chwefror 2024.

I drefnu ymweliad anffurfiol, neu i ofyn am ragor o wybodaeth, e-bostiwch: artaylor@maindee.org

**Trosolwg**

Ydych chi'n angerddol dros weithredu dros yr hinsawdd ac yn awyddus i gyfrannu at brosiect trawsnewidiol i ffurfio dyfodol Casnewydd? Ymunwch â ni ar y daith at greu cymuned gwastraff-sero, sy'n wydn yn wyneb yr hinsawdd!

**Amdanom Ni:** Mae Maindee Unlimited, mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers Cyf. a Benthyg Cymru, yn cychwyn ar Brosiect Economi Gylchol Casnewydd. Nod y fenter hon, dan arweiniad y gymuned, yw ysbrydoli newid ymddygiad drwy ddatblygu rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweld gwastraff fel adnodd, ac i hybu gweithredu ynghylch newid hinsawdd, drwy adeiladu llythrennedd hinsawdd yn y gymuned, a thrwy greu Llyfrgell Pethau ym Maendy. Wrth i ni daclo heriau'r argyfwng hinsawdd, rydyn ni'n chwilio am unigolyn ymroddedig i ymuno â'n tîm.

**Cyfrifoldebau:** Fel Swyddog Prosiect, byddwch chi'n chwarae rhan allweddol mewn gweithredu a rheoli sawl agwedd ar y prosiect, gan gynnwys gweinyddu'r rhwydwaith a'r Llyfrgell Pethau, a chydlynu gweithdai Byw'n Gynaliadwy. Byddwch chi'n cydlynu gwirfoddolwyr a bydd eich tasgau'n amrywio o ddyletswyddau gweithredol drwodd i ymgysylltu â grwpiau cymunedol amrywiol.

**Gofynion:** Rydyn ni'n chwilio am rywun â dealltwriaeth dda o Gasnewydd a'i heriau cymunedol. P'un ai ydych chi'n brofiadol mewn gweithredu prosiectau, ymgysylltu â chymunedau, neu ym maes mentrau cynaliadwyedd, hoffem glywed oddi wrthych. Ymunwch â'n tîm angerddol, gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Bwrdd Prosiect i gyflawni ein hamcanion.

Os ydych chi'n barod i greu argraff gadarnhaol a chyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer Casnewydd, hoffem eich gwahodd i ymgeisio. Ymunwch â ni i yrru newid ac adeiladu cymuned wydn, ddi-wastraff!

Mae Maindee Unlimited, Wastesavers a Benthyg Cymru yn cydnabod gwerth cadarnhaol amrywiaeth, yn hybu cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydyn ni'n croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Byddai croeso arbennig i geisiadau gan ymgeiswyr anabl, a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Rydym hefyd wedi gwneud ymrwymiad cadarnhaol i gyflogi pobl anabl, ac rydyn ni'n addo cyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n ateb y meini prawf a amlinellir ym manyleb y person.

**Manyleb y Person**

Rydym ni'n dymuno recriwtio ymgeisydd â'r priodoleddau canlynol:

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| **Addysg** | |
| • TGAU mewn Saesneg neu gyfatebol<br>• TGAU mewn Mathemateg neu gyfatebol | • TGAU mewn Cymraeg neu gyfatebol |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | |
| • Dealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â newid hinsawdd<br>• Gwybodaeth dda o ardal Casnewydd a'i chymunedau amrywiol<br>• Profiad o brosiectau economi gylchol / cymunedol / amgylcheddol<br>• Profiad o weinyddu a chadw cofnodion | • Profiad o gydlynu / gweithio gyda gwirfoddolwyr<br>• Gwybodaeth a phrofiad o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, marchnata ac ymgyrchoedd |
| **Sgiliau a Phriodoleddau** | |
| • Sgiliau cyfathrebu ac adeiladu perthynas rhagorol<br>• Parodrwydd i gwrdd â gwirfoddolwyr a'r cyhoedd a gweithio gyda nhw<br>• Y gallu i ysgrifennu'n glir yn Saesneg<br>• Sgiliau gwrando hyfyw<br>• Parodrwydd i weithio gyda thîm ac yn annibynnol<br>• Gallu mewn prosesu geiriau / pecynnau Microsoft Office<br>• Postio effeithiol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol<br>• Gallu cadw amser yn dda – cwrdd â dedleins<br>• Gweithio'n dda â chymunedau amrywiol | • Sgiliau mewn cyfryngau digidol e.e. ffotograffiaeth, graffics<br>• Gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg neu mewn iaith gymunedol arall<br>• Gallu trefnu a hybu digwyddiadau<br>• Rhagweithiol a chreadigol |

**Disgrifiad Swydd**

Fel Swyddog Prosiect, byddwch chi'n chwarae rhan allweddol mewn sicrhau llwyddiant Prosiect Economi Gylchol Casnewydd, gan gefnogi gweithredu beunyddiol a chyfrannu at ei argraff hirdymor. Gan ateb i'r Rheolwr Prosiect a'r Bwrdd Prosiect, bydd eich cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

- **Rhwydwaith Economi Gylchol Casnewydd:**
    - Ymateb i ymholiadau am y rhwydwaith mewn dull cyfeillgar a chroesawgar, gan weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf.
    - Cynnal cysylltiadau, meithrin cyfathrebu, ac ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau'r rhwydwaith.
    - Datblygu deunyddiau a chyfathrebiadau creadigol i hybu ac ymestyn y rhwydwaith, gan ddefnyddio ffotograffiaeth, ysgrifennu a chyfryngau eraill i ddal data.
- **Gweithredu Llyfrgell Pethau ym Maendy:**
    - Goruchwylio gweithrediadau beunyddiol, cydlynu gwirfoddolwyr, defnyddio meddalwedd y Llyfrgell Pethau ar gyfer sefydlu defnyddwyr, cynnal a chadw'r rhestr, ac archebu eitemau.
    - Cefnogi monitro defnydd a gweithgarwch y Llyfrgell Pethau.
    - Datblygu deunyddiau a chyfathrebiadau creadigol i hybu'r Llyfrgell Pethau.
- **Gweithdai Byw'n Gynaliadwy:**
    - Cyfathrebu â hwyluswyr y gweithdai i sicrhau cydlyniant llyfn.
    - Cefnogi'r sefydliad a hybu digwyddiadau'r gweithdai, gan feithrin ymgysylltiad cymunedol.
- **Cefnogaeth Weinyddol i'r Prosiect:**
    - Cynorthwyo'r Rheolwr Prosiect gyda thasgau gweinyddol, gan gynnwys cyfathrebiadau proffesiynol, casglu data, cadw cofnodion a chyfrannu at adroddiadau.
- **Datrys Problemau:**
    - Gweithio i ddatrys problemau'n rhagweithiol wrth iddynt godi, gan geisio mewnbwn gan gydweithwyr yn ôl y galw.
- **Hyblygrwydd ac Ufudd-dod i Bolisi:**
    - Gweithio o fewn fframwaith polisi'r cyflogwr a bod yn agored i gyflawni dyletswyddau sy'n gyfwerth â'r swydd, a all gynnwys mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r hwyr a thros y penwythnos yn achlysurol.

**Y Partneriaid**

**Maindee Unlimited – Prif Bartner**

Y prif bartner yw Maindee Unlimited, elusen gorfforedig leol a ffurfiwyd yn 2015 ac a lywodraethir gan fwrdd o Ymddiriedolwyr lleol. Nod yr elusen yw *"trawsnewid Maendy'n gymuned gynaliadwy â hunaniaeth leol gref ac economi leol gref, gydag enw da fel lle deniadol, diogel, diwylliannol fywiog a chydlynol i fyw, ymlacio a gweithio ynddo."*

**Benthyg Cymru**

Mae Benthyg Cymru yn Gwmni Diddordeb Cymunedol sy'n gweithredu rhwydwaith o leoedd ledled Cymru (gan gynnwys y llyfrgell pethau yn Remake Casnewydd), ble gall pobl:

a) gael mynediad fforddiadwy i fenthyca pethau y maen nhw eu hangen ond nad ydyn nhw'n berchen, gan arbed arian a lle yn eu cartrefi,

b) rhoi pethau y maen nhw'n berchen arnynt ond nad oes mo'u heisiau mwyach, gan gyfrannu at dargedau lleihau gwastraff cenedlaethol, a

c) cyfarfod i rannu gwybodaeth a sgiliau â'i gilydd, gan gynyddu gwytnwch cymunedol.

**Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers**

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers yn fenter gymdeithasol ac elusen a leolir yng Nghasnewydd. Mae'r Elusen yn cynnal rhwydwaith o siopau ailddefnyddio, dau gaffi trwsio, llyfrgell cewynnau a dwy raglen addysgol ledled De Cymru. Mae'r fenter gymdeithasol yn darparu gwasanaeth ailgylchu domestig wythnosol ar ran Cyngor Dinas Casnewydd ac mae'n casglu o 75,000 o gartrefi yng Nghasnewydd. Yn 2021 agorodd Wastesavers y Ganolfan Ailddefnyddio ar Ffordd Cas-gwent ym Maendy, dyma ychwanegiad o bwys i'r economi gylchol leol ac mae eisoes wedi dargyfeirio 83 tunnell fetrig o dirlenwi, gan gynrychioli arbediad o 480 tunnell o allyriadau carbon.

**Remake Casnewydd – Partner Cyflenwi**

Mae Remake Casnewydd (www.remakenewport.org ) yn bartner cyflenwi ar gyfer y prosiect. Mae'n wasanaeth a leolir mewn siop a grëwyd gan Repair Cafe Wales a Benthyg Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Chartrefi Dinas Casnewydd. Mae Remake yn cynnal Llyfrgell Fenthca Pethau, lleoliad trwsio, ail-lenwi diwastraff ac mae'n darparu ystod o weithdai cyhoeddus o'u lleoliad canolog.